

PARADWYS

MALACHY
OWAIN EDWARDS

GOLL



Paradwys Goll

Malarchy Owain Edwards

Rhagair

Up went Nelson in old Dublin
Up went Nelson in old Dublin
All along O'Connell Street the stones and rubble flew
As up went Nelson and the pillar too.

Daeth Barbados i fy meddwl wrth i fy ngyrrwr taci Gwyddelig ganu 'Up Went Nelson' gyda hwyl ac wmf ar y ffordd i'r siop llogi ceir. Cân a oedd yn dathlu'r tro pan wnaeth yr IRA ffrwydro colofn Horatio Nelson (1758-1805) ar Stryd O'Connell yn 1966. Roedd y gyrrwr yn ddigon hen i gofio dathliadau mawr y noson honno wrth iddo resymu 'nad oedd hi'n addas nac yn briodol i Lyngesydd Seisnig syllu i lawr ar stryd prifddinas gwlad annibynnol'.

One early mornin' in the year of '66
A band of Irish laddies were knockin' up some tricks
They thought Horatio Nelson had overstayed a mite
So they helped him on his way with some sticks of gelignite.

Roedd gwyntoedd gwrthimperialaidd cryfion yn chwythu yn 1966: yn yr un flwyddyn ag y cafodd cerflun Nelson ei fomio gan yr IRA, ar ochr arall yr Iwerydd enillodd cyn-goloni Prydeinig arall, Barbados, ei hannibyniaeth.

The Irish population came from miles around
To see the English hero lying on the ground
The Dublin corporation had no funds to have it done
But the pillar blew to pieces by the ton, ton, ton.

Teimlais gyffro'r dyn o Ddilyn wrth iddo hel atgofion melyn am weld symbol o'r arwr Seisnig wedi ei falu'n deilchion ar Stryd O'Connell. Doedd yr un gyrrwr taci wedi canu i mi o'r blaen – nid yn Nulyn nac unman arall. Rhais fy enw Gwyddelig, Malachy, iddo a dwedais fy mod ar fy ffordd i Muineachán i ymweld â fy hen ewythr – brawd fy mam-gu – o'r enw Malachy pan ddechreuodd ganu 'Up Went Nelson'.

Wrth wrando ar y gân wrthryfelgar, meddyliais am y cerflun mawreddog o'r Llyngesydd a hanai o Norfolk sydd i'w weld ar lannau'r Fenai yn Llanfair Pwllgwyngyll. Ar 21 Hydref 1805, dan arweiniad Nelson, trechodd y Llynges Brydeinig lyngesau Ffrainc a Sbaen ym mrwydr Trafalgar. Ar ddechrau'r frwydr, datganodd Nelson ei neges enwog, 'England expects every man will do his duty'. Cerfiwyd y gorchymyn hwn mewn llythrennau mawr ac amlwg ar gofodail Nelson yn Ynys Môn. Ond heb esbonio'r cyd-destun mai paratoi llongwyr at y frwydr ydoedd, mae'r neges Saesneg ynghylch Lloegr yn disgwyl i bob dyn – pob Cymro? – wneud ei ddyletswydd yn swnio fel bygythiad i'r Cymry ufuddhau i Loegr. Yn gwbl nodweddiadol, ers symud i ogledd Cymru yn 2018 dydw i erioed wedi clywed neb yn cwyno am y cerflun. A'r ddwy'n wledydd Celtaidd, mae'r ffordd o drin cerflun yr Arglwydd Nelson yn amlygu'r gwahaniaeth amlwg rhwng Cymru ac Iwerddon: cafodd y cerflun ei fomio yn Iwerddon ond ei anwybyddu yng Nghymru.

Cyrhaeddais fy nghyrchfan cyn i mi glywed y pennill olaf. Roedd Nelson yn bleidiol i'r Ymerodraeth Brydeinig a'r gaethfasnach drawsatlantig ac ni fu'r brifddinas yn hiraethu ar ôl ei gerflun. Erbyn meddwl, onid oedd Barbados hefyd wedi diddymu ei cherflun o'r Llyngesydd Nelson ers i mi ymweld â'r ynys ddiwethaf yn 2016? Iwerddon a Barbados: dwy ynys mor bell oddi wrth ei gilydd yn ddaddearyddol ac yn ddiwylliannol, ac eto dwy wlad annibynnol yn rhannu'r profiad o drefedigaethu ac imperialaeth Brydeinig ac sydd o ganlyniad wedi brwydro yn erbyn yr un symbolau gwladychol.

Gyrrais ymlaen i Muineachán sydd yng ngogledd y Weriniaeth ac yn rhannu ffin â thalaith Gogledd Iwerddon. Ar ôl cyrraedd es gyda fy ewythr am dro i'r wlad. Cerddodd yr hen ddyn heddychlon drwy ganol natur ar ddiwrnod braf ym mis Ebrill 2023 gyda llaswyr coch yn ei law. Gwrandewais innau'n astud wrth iddo gymharu sut le oedd Muineachán ei blentynod gyda'r fro heddiw. Yn ogystal â cheisio dysgu ambell weddi i mi yn Lladin, cadarnhaodd mai ei hoff bwnc yn yr ysgol oedd Gwyddeleg a'i fod e'n difaru peidio cadw at ei astudiaethau yn yr iaith Geltaidd hardd a hynafol honno. Ac yntau wedi ei eni ar y ffermdy ac yn ymgorfforiad neilltuol o'i fro, buom yn trafod a hel atgofion ac adrodd straeon ffraeth tan hwy'r y nos.

* * *

Dihunodd y bore wedyn mewn hwyliau da. Paratois frechdan cig moch ac wy iddo. Camodd i mewn i fy nghar yn fud, yn dal croes fawr bren, ac i ffrwdd â ni i Eglwys Sant Joseph yng nghanol y dref. Rhoddai fendith bob tro yr aem heibio eglwys – ro'n i wedi anghofio sut y byddai Grandma'n gwneud hynny. Roedd yr eglwys hon yn brydferth y tu mewn iddi a golwg fodern, lân a moethus arni. Yn ogystal â'r delweddau a cherfluniau o Iesu a Mair, roedd patrymau Celtaidd wedi'u cerfio ar fwrdd yr allor ac ar flaen y ddarllenfa. Er nad oedd yno faner Iwerddon, doedd dim dwywaith fy mod i mewn eglwys Catholig Wyddelig.

Roedd yr eglwys yn llawn. Gwelais deuluoedd dosbarth gweithiol mewn tracwisgoedd gyda phlant yn eistedd ar eu gliniau, eraill â gwedd fwy dosbarth canol ar eu siwtiau; pobl abl ac anabl, rhai hen ac ifanc. Cefais fy synnu gan y nifer a oedd wedi ymgynnull ar gyfer y gwasanaeth: mwy nag mewn unrhyw wasanaeth – mewn eglwys neu gapel – yr oeddwn i erioed wedi ei fynychu yng Nghymru.

Roedd hi'n rhyfedd meddwl fy mod i'n ffitio'n llawer gwell i mewn i'r dorf yn fy nghrys polo a chot hir ddu nag oedd fy hen ewythr gyda'i groeslun mawr pren a'i ddillad llwm; edrychai fel crair prin ond gwerthfawr o'r hen Iwerddon. Camodd yr offeiriad ymlaen at yr allor farmor, dyn trwsiadus, corffol ac awdurdodol yr olwg, fel y buasech yn ei ddisgwyl o'i swyddogaeth. Roeddem wedi cyrraedd yr eglwys ar Ddydd Gweddî'r Byd ar gyfer Galwedigaethau. Yn ei bregeth daliodd yr offeiriad ar y cyfle i drafod ei alwedigaeth ef ei hun sef yr offeiriadaeth. Yn fanylach, trafododd yr argyfwng recriwtio dwys a'i hwynebai gan gloi ei anerchiad fel hyn:

Peidiwch da chwi â sôn wrthyf am yr hen ddyddiau, pan oedd y seminari yn llawn dynion ifanc brwdfrydig yn ymgeisio am le yn yr offeiriadaeth. Mae'r dyddiau hynny ar ben ac mae'n rhaid i ni fel Eglwys addasu i'r dyddiau sydd ohoni. Llaciwch y rheol ac agorwch yr offeiriadaeth i ddynion teulu. Agorwch y ffordd i fenywod ddal swyddi arweinyddol uwch yn yr Eglwys. Mae'n hen bryd i ni ddiwygio felly i gael cyfiawnder.

Wedi iddo orffen ei bregeth bwerus, ffrwydrodd y gynulleidfa a'r clapio a'r ganmoliaeth frwd yn para yn hir. Anerchiad gan offeiriad yn erbyn y gofyniad fod raid i offeiriad fod yn ddi-briod, rheol a fu yn ei lle ers yr Oesoedd Canol? Teimlais i mi gael fy ysguo gan emosiwn y foment.

Wedi'r gwasanaeth ceisiais holi Malachy am anerchiad yr offeiriad ond ni fynegodd farn. Aethom i mewn i'r dref er mwyn iddo gael casglu ei bresgripsiwn o'r fferyllfa. Roedd gan GAA Muineachán gêm fawr ac roedd cefnogwyr GAA ym mhobman, yn yfed, smygu a mwynhau. A'i bresgripsiwn bron yn barod, safem yno – y ddau Falachy efo'n gilydd – yn cysgodi dan do'r adeilad rhag y glaw. Nid oeddem ar unrhyw frys i'w mentro hi. Meddylw'n am ei chwaer, Grandma, a fu farw yn 2010, a'r atgofion bach di-nod: aros gyda hi wrth yr orsaf bysiau, mynd am goffi yn y caffi cyfagos, y ci yn gorwedd ar ei thraed yn y stafell fyw. Y distawrwydd. Roedd bod efo'i brawd 88 oed yn gwneud i mi deimlo'n agosach ati hi – roedd y ddau ohonyn nhw'n agos ac maen nhw'n debyg yn eu ffyrdd. Rwy'n falch fod gen i gystal perthynas efo Malachy i mi allu rhannu ennys werthfawr gydag ef o hyd.

Rwy'n hoff o Iwerddon – mae rhyw ysbryd hyderus ac egni da yn perthyn i'r wlad a'i phobl. Teimlwn yn hapus a chyfforddus ym mhresenoldeb fy mherthnasau Gwyddelig. Gallwn fyw yn Éire. Ac eto mae cyfoeth fy nghysylltiadau a dyfnder fy nheimlad at Iwerddon yn atgof parhaus o'r tloidi a'r diffyg teimlad sydd gen i tuag at yr ynys arall honno sy'n gymaint rhan o fy ngwlad: Barbados.

Er fy mod i'n 21 oed pan fu farw fy nhad-cu Barbadaidd, Kenrick, ni chefais yr ennys pwysig o ddealltwriaeth a chariad gydag ef. Rwy'n teimlo fel petai pall yn achos hanes fy nhad-cu a'i famwlad. Bod gwlad Barbados, y baradwys ddaearol honno, ei hanes, ei diwylliant a'i threfnadaeth ar goll i mi, a hynny

oherwydd diffyg fy mherthynas â fy nhad-cu, Kenrick.

Wedi i mi fynd â fy ewythr yn ôl i'r tŷ, dychwelais innau i Ddulyn. Eisteddais yn y gerddi coffa yn Sgwâr Parnell a myfyriais o flaen y pwll. Profais deimlad o falchder wrth ystyried rhan fy hen dad-cu, Peadar, yn Rhyfel Annibyniaeth Iwerddon. Dyma'r unig wlad Geltaidd annibynnol yn y byd: mae Iwerddon yn wlad ddemocrataidd ryddfrydol gyfoethog, heddychlun a llwyddiannus, a fy hynafiaid wedi helpu i ddod â hi i fodolaeth. Ond achosodd hyn i mi feddwl pa straeon nad oeddwn i'n eu gwybod am Farbados ac ochr Ddu fy nheulu yn gyffredinol. Roedd brawd a chwaer fy nhad-cu yn dal yn fyw ac yn trigo ar yr ynys o hyd ac roeddwn i'n dymuno gwybod fy hanes yn fanylach. Ac felly yn Nulyn yr oeddwn i pan feddyliais gyntaf y dylwn fynd ati i ganfod paradwys ac adennill fy nhreftadaeth Farbadaidd.

